

# Ardal Natur Little Fawnog

## Nod Llesiant

## Ffyrdd o weithio

Mae Little Fawnog yn goetir bychan ger canol tref Wrecsam. Mae'n hygyrch o Lwybr Clywedog sy'n rhedeg am 9 milltir o Fwyngloddiau Plwm Minera i Kingsmill, yn dilyn cwrs Afon Clywedog.

Cyngor Cymuned Offa sy'n berchen ar y coetir, a ffurfiwyd ym 1985 ac mae'n parhau i ddarparu nifer o wasanaethau a gweithgareddau ategol i'w cymuned leol.

Mae WoodsWork yn Gwmni Buddiannau Cymunedol sy'n rheoli Ardal Natur Little Fawnog, ac maen nhw'n gweithio i ddiogelu eu hamgylcheddau rhag effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd er budd eu cymunedau. Eu nod yw diogelu cynefinoedd a choetiroedd presennol i helpu i wella bioamrywiaeth a gwarchod bywyd gwyllt. Mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â'u cymunedau lleol, awdurdodau ac ysgolion, gan hwyluso cyfleoedd addysgol a'r defnydd o fannau gwyrdd at ddibenion llesiant.

Ymgymerodd WoodsWork â'r gwaith o reoli Little Fawnog yn 2021 gyda'r bwriad o gadw a gwella'r coetir a'r amrywiaeth o rywogaethau o anifeiliaid y mae'n gartref iddynt.

Mae digwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal yn rheolaidd bob mis, ac roedd y grŵp yn gallu cefnogi eu gwirfoddolwyr gyda gweithgareddau fel plannu bylbiau, adeiladu blychau cynefin a digwyddiadau ymlacio mewn coetiroedd. Mae'r grŵp wedi gwneud gwaith pwysig i gadw'r llwybrau'n glir, i gael gwared â choed sydd wedi'u heintio ac i frwydro yn erbyn rhywogaethau goresgynnol er mwyn sicrhau diogelwch ac iechyd y coetir.

Drwy ein gwaith ar y cynllun Coetiroedd Cymunedol, a gafodd ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, roeddem ni'n gallu gweithio mewn partneriaeth â WoodWork a'u cefnogi gyda'u nod o wneud y coetir yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr a gwella bioamrywiaeth yn yr ardal.

Roedd y prosiect yn caniatáu i isdyfiant gael ei glirio er mwyn gallu plannu amrywiaeth o goed i gynnal y gymysgedd frodorol o dderw, aethnen, onnen, cyll, celyn a chastanwydd, gan wella bioamrywiaeth coetiroedd. plannwyd 700 o flodau gwyllt hefyd i barhau i

> "Rydym ni'n gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth a'r arweiniad a gafwyd gan y tîm yn Trafnidiaeth Cymru i'n helpu i gyflawni a rhagori ar nodau cychwynnol y prosiect"

Geiriau allweddol: Coetiroedd Cymunedol, prosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rheoli ac adfer coetiroedd, mannau gwyrdd hygyrch, ymgysylltu â'r gymuned, ymgysylltu â phobl ifanc, cenedlaethau'r dyfodol, partneriaethau, effaith gynaliadwy




gefnogi bywyd gwyllt y coetir a chysylltedd pryfed peillio. Cafodd 500m o lwybrau ar draws y safle eu hadfer, gyda lefelu wynebau a gosod ymylon, i helpu i wella mynediad. Yn ogystal â chreu man gwyrdd hygyrch, mae'r llwybr yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i gyrraedd y dref, ysgolion lleol ac mae'n rhan o lwybr Clywedog, gan gefnogi amrywiaeth eang o anghenion defnyddwyr.

Cynhaliwyd digwyddiad cymunedol ar ôl cwblhau'r gwaith i arddangos y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud i'r trigolion lleol. Roedd yr adborth o'r sesiwn hon yn hynod o gadarnhaol, gyda gwirfoddolwyr a chynghorwyr yn mynegi eu gwerthfawrogiad o'r gwelliannau o ran mynediad ac iechyd y goedwig ei hun. Dywedodd preswylydd lleol wrth y grŵp ei bod yn gallu gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored yn haws o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect, a dywedodd yr ysgol uwchradd leol, Ysgol Clywedog, a oedd wedi bod yn rhan o'r gweithgareddau clirio, plannu a chreu llwybrau, eu bod yn bwriadu defnyddio'r safle i ddysgu eu TGAU Garddwriaeth newydd, gan ddangos sut gall buddsoddi mewn mannau gwyrdd fod o fudd i gymunedau mewn sawl ffordd.











> "Mae'r goedwig yn llawer mwy hygyrch, rydw i wedi gallu canslo fy aelodaeth o'r gampfa a mwynhau ymarfer corff yn yr awyr agored yn lle hynny."